

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
i ymholiad gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
ar ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i  
oedolion**

Rwy'n falch o gael y cyfle i gyfrannu at ymholiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am gytuno i ystyried fy nhystiolaeth yn y cam hwn o'r ymholiad.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau o ofal iechyd a ariennir yn breifat.

**Awdurdodaeth OGCC o ran cwynion gofal iechyd gan garcharorion ar wasanaeth yng Nghymru**

Mae'r rhaniad presennol mewn cyfrifoldebau dros gwynion gofal iechyd gan garcharorion ar wasanaeth yng Nghymru yn gymhleth.

Mae carchardai yng Nghymru o dan stiwardiaeth gyffredinol adran Gweinyddiaeth Cyfiawnder y Llywodraeth (MoJ). Gall unrhyw garcharor sydd am wneud cwyn am wasanaethau yn y carchardai gwyno i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO). Mae cwynion am un o adrannau'r Llywodraeth (gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder) o dan awdurdodaeth swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth

lechyd (PHSO).

Fodd bynnag, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros wasanaethau iechyd yng ngharchardai'r sector gyhoeddus yng Nghymru oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2003. O fis Ebrill 2006, datganolwyd y cyfrifoldeb hwn i'r Byrddau Iechyd Lleol perthnasol. Mewn gwirionedd, arweiniwyd yr uchod at y Byrddau Iechyd yn cael eu pennu'n "gomisiynwyr cyfrifol" dros carcharorion ar wasanaeth yn eu hardal. Fodd bynnag, ceir un eithriad - lle mae carcharor yn cael ei drosglwyddo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'r cyfrifoldeb comisiynu yn yr achosion hyn yn aros yn ardal preswyllo'r carcharor cyn iddo gael ei garcharu.

Ers 1 Ebrill 2006, yn dilyn datganoli a Deddf OGCC 2005, ni all PHSO ymdrin â chwynion yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru. Yn hytrach, daw nhw o dan gylch gorchwyl fy swyddfa i. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ofal a gomisiynir gan bedwar carchardy'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mewn egwyddor, mae fy awdurdodaeth yn ymestyn i unrhyw fethiant wrth ddarparu gofal iechyd neu driniaeth gofal iechyd, a allai fod wedi effeithio'r unigolyn, gan gynnwys cyfrannu at ei farwolaeth.

Fodd bynnag, mae marwolaethau mewn dalfa yn disgyn yn benodol o dan gylch gorchwyl PPO. Gall carcharor yng Nghymru hefyd gwyno i PPO am achosion yn ymwneud â'u gofal iechyd cyffredinol. Wedi dweud hynny, yn wahanol i'm swyddfa, ni all PPO gwestiynu barn broffesiynol a barn glinigol.

Mae awdurdodaethau yn fwy cymhleth fyth o ran cwynion gofal iechyd yn erbyn Parc CEM Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael ei weinyddu'n breifat gan G4S. Darperir gofal iechyd eilaidd, iechyd meddwl mewngymorth ar gyfer oedolion a gwasanaeth podiatreg sesiynol ym Mharc CEM Pen-y-bont ar Ogwr drwy BIP Bae Abertawe, ac felly mae modd i'm swyddfa ymchwilio iddynt. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer darparu gofal iechyd cynradd wedi ei rannu mewn contract trosfwaol rhwng y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddau (NOMS) a G4S – cyrff y tu allan i'm hawdurdodaeth. Rhaid i garcharorion ym Mharc CEM sydd am gwyno ynghylch gofal iechyd cynradd wneud hynny i PPO. Fodd bynnag, eto, ni all PPO ymdrin â chwynion am farn glinigol.

Er i'm staff gynnal cyswllt rheolaidd â PPO a chyfeirio achosion fel bo'n briodol, yn ystod diwygio fy swyddfa, dadleuais y dylid enwi PPO ymhlith y cyrff y gallaf gydweithredu â nhw yn ystod ymchwiliad. Fodd bynnag, ni fwriwyd ymlaen â'r awgrymiad hwn bryd hynny.

Croesawaf [dystiolaeth gan PPO i'r Pwyllgor](#) bod Parc CEM, yn dilyn ei hymchwiliad yn 2017, wedi cyflwyno proses lle gellir dwysau cwynion am ofal iechyd at y Cyfarwyddwr Cefnogaeth Strategol, Gweinyddol a Sicrwydd. Croesawn fod y cyfarwyddwr yn annibynnol o G4S a bod modd iddo ofyn i arbenigwr gofal iechyd annibynnol adolygu'r gŵyn. Serch hynny, byddwn yn dadlau bod y broses ym Mharc CEM yn rhoi'r carcharorion yn y cyfleuster hwn o dan anfantais o hyd o gymharu â charcharorion yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Y rheswm dros hyn yw am nad oes ganddynt fynediad cydradd at wasanaeth ombwdsmon annibynnol.

Ar y cyfan, credaf fod y trefniadau presennol yn aneglur a chymhleth ac nid ydyn nhw'n helpu carcharorion yng Nghymru i ennill cyfiawnder gweinyddol.

Os yw cyfrifoldeb dros garchardai yng Nghymru yn aros yn San Steffan, byddwn yn dadlau y dylid:

- enwi PPO mewn deddfwriaeth ymhlith y cyrff y gallaf gydweithredu â nhw yn ystod ymchwiliad;
- cynnwys barn broffesiynol/clinigol yng nghylch gorchwyl PPO ar gyfer gwasanaethau iechyd mewn carchardy/carchardai preifat yng Nghymru (Parc CEM);
- sicrhau bod canllaw clir ar gael i garcharorion ar sut i gwyno, ac i bwy y dylid cwyno, ar gyfer gwahanol agweddau ar wasanaethau carchardai (PHSO, PPO, a'm swyddfa).

Fodd bynnag, os derbynnir argymhelliad [y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru](#) (2019) – sef y dylid datganoli 'materion llywodraethu ac archwilio'r heddlu, carchardai a phrofiannaeth, ymhlith agweddau eraill ar yr isadeiledd cyfiawnder' i Gymru - byddwn yn dadlau y dylid:

- ymestyn fy awdurdodaeth i gynnwys cwynion yn ymwneud â charchardai, yn ogystal â gwasanaethau iechyd ar gyfer carcharorion;
- ymestyn fy awdurdodaeth i gynnwys carchardai preifat yng Nghymru ar yr un sail â charchardai eraill (h.y. cynnwys barn broffesiynol/clinigol mewn materion yn ymwneud â gwasanaeth iechyd).

### **Cwynion gofal iechyd gan garcharorion ar wasanaeth a ymdriniwyd â nhw gan OGCC**

Yn gyffredinol, ychydig iawn o gwynion yn ymwneud â gofal iechyd gan garcharorion ar wasanaeth yng Nghymru a dderbynnir gan fy swyddfa. O'r cwynion a dderbyniwyd yn 2018 a 2019, gellir categoreiddio 5 yn betrus i fod yn gysylltiedig â gofal iechyd carcharorion.<sup>1</sup> Fodd bynnag, er mai nifer bach yw hwn, mewn cyfartaledd, derbyniaf fwy o gwynion yn ymwneud â gofal iechyd gan garcharorion na gan gyfanswm poblogaeth oedolion yng Nghymru.<sup>2</sup> Hefyd, mae modd rhoi'r nifer hwn yn ei gyd-destun o gofio'r ffaith bod PPO yn 2018/19 wedi ymdrin â 10 cwyn 'meddygol' ar gyfer pob carchardy yn Lloegr a Chymru.<sup>3</sup>

Nodaf, o'r carchardai yng Nghymru, mae'r mwyafrif o'r cwynion i PPO yn ymwneud â CEM Berwyn. Mae hyn hefyd yn unol â'm gwaith achos - a dweud y gwir, roedd pob un o'r pum cwyn gofal iechyd gan garcharor a ymdriniwyd â nhw yn 2018/19 yn ymwneud â'r carchardy hwnnw.

---

<sup>1</sup> Nid yw'r system bresennol ar gyfer categoreiddio gwaith achos a ddefnyddir gan fy swyddfa yn gwahaniaethu rhwng gofal iechyd carcharorion ar wasanaeth a gofal iechyd cyffredinol. Fodd bynnag, mae modd adnabod tueddiadau cyffredinol yn seiliedig ar chwiliad tesun fy nghronfa ddata gwaith achos.

<sup>2</sup> 5 cwyn gofal iechyd gan garcharor yn ystod 2018/19, ar gyfer poblogaeth carchardy o 4,291 = 0.12%  
1007 cwyn gofal iechyd yn ystod 2018/19, ar gyfer poblogaeth oedolion yng Nghymru (dros 15) o 2,575,922 = 0.04%

<sup>3</sup> [Adroddiad Blynyddol 2018/19 yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.](#)

Yn y gorffennol, ni ddatblygwyd y mwyafrif o'r cwynion i'm swyddfa gan garcharorion ar wasanaeth mewn cysylltiad â gofal iechyd heibio'r cam asesu.<sup>4</sup> Fodd bynnag, ers 2016, cynhaliais dri ymchwiliad i gwynion o'r fath, ac mewn dau achos, ni chadarnheais yr ymchwiliadau.

Ar y cyfan, mae'r nifer cyfyngedig o achosion perthnasol yn atal unrhyw gyffredinoliad. Fodd bynnag, un thema a welwn ni yn gymharol gyson yw rheoli a chilio meddyginiaeth carcharorion. Isod, ceir crynodebau o ddau ymchwiliad a dynnwyd o fy nghoflyfr sy'n dangos y thema hon.

### **201707353 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2018)**

Cwynodd Mr C am newidiadau i'w feddyginiaeth a gyflwynwyd ers iddo ddod yn garcharor yn CEM Berwyn ym mis Medi 2017. Cwynodd hefyd am agwedd y staff Bwrdd Iechyd yn y carchar.

Canfu'r Ombwdsmon bod y newidiadau a wnaed i feddyginiaeth Mr C - yn enwedig y gostwng a therfynnu'r rhagnodiad ar gyfer pregablain – yn glinigol addas. Canfu'r Ombwdsmon bod tystiolaeth annigonol i gasglu bod agwedd yr aelodau o staff yn anaddas. Ni chadarnhaodd y cwynion.

### **201705807 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2018)**

Cwynodd Mr X am ei ofal iechyd Meddyg Teulu yn CEM Berwyn ("y Carchar"). Yn benodol, bod y Bwrdd Iechyd wedi methu ag asesu lefelau ei boen yn gywir ac i ragnodi meddyginiaeth briodol, yn dilyn damwain lle anafodd ei ben-glin.

Canfu'r Ombwdsmon y bu hi'n addas i'r Bwrdd Iechyd adolygu cyflwr Mr X a'i rhagnodiad meddyginiaeth yn ystod ei ddyfodiad i'r carchar, ac y cynigwyd cyffuriau lleddfu poen priodol nad oedd yn dawelydd iddo, yn ogystal â ffisiotherapi. Ceisiwyd mewnbwn priodol gan yr Adran Trawma ac Orthopaedig ("T&O") yr ysbyty, a threfnwyd Pelydr- X mewnlol. Er bod nodiadau'r Ffisiotherapyddion yn gryno ac ymddengos nad oedd y cysylltiad rhwng Meddygon Teulu'r Carchar, Ffisiotherapyddion y Carchar ac adran T&O yr ysbyty mor effeithiol a chadarn ag y gallent fod wedi bod, ni arweiniodd y diffygion hyn at fethiant gwasanaeth sylweddol wrth reoli poen Mr X. Roedd y Cynllun Gofal Ffisiotherapi yn briodol ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod atgyfeiriad Mr X neu fewnbwn gan yr Adran T&O wedi'u hoedi.

Ni chadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn. Fodd bynnag, gwahoddodd y Bwrdd Iechyd i atgoffa Ffisiotherapyddion y Carchar o'r canlynol: yn gyntaf, o bwysigrwydd cynnal cofnodion llawn a chywir, i sicrhau bod y proses atgyweirio o fewn y Carchar

---

<sup>4</sup>Mae'r cam asesu yn ystyried materion megis:

- a oes tystiolaeth o fethiant gwasanaeth neu gamweinyddu;
- a oes tystiolaeth o anghyfiawnder;
- a yw'r corff sy'n destun y gŵyn wedi cael cyfle i ymateb;
- a yw'r gŵyn wedi'i gwneud o fewn amser priodol (fel arfer, llai na 12 mis ers y digwyddiad y cwynwyd yn ei gyloch, neu ers i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r broblem);
- a oes rhwymedi arall ar gael;
- a fydd ymchwiliad yn debygol o gyflawni unrhyw beth arall.

yn effeithiol ac effeithlon, ac yn ail, o bwysigrwydd darparu adborth clir i'r clinigwr sy'n derbyn yr atgyfeiriad, gyda'r opsiwn o geisio barn arbenigol i gryfhau'r broses gwneud penderfyniadau.

### **Sylwadau cloi**

Rwy'n hyderu y byddwch chi yn gweld fy sylwadau yn ddefnyddiol. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, Pennaeth Polisi ([ania.rolewska@ombudsman.wales](mailto:ania.rolewska@ombudsman.wales)).



**Nick Bennett**  
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**  
**Rhagfyr 2019**

\*\*\*\*\*